Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cylch Gorchwyl — Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

## 1. Cyfansoddiad

1.1. Mae Pwyllgor i Fwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (enw brand Medr) a adwaenir fel y **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** (y Pwyllgor) wedi cael ei sefydlu â'r Cylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog canlynol, y cytunwyd arnynt trwy benderfyniad gan y Bwrdd dyddiedig 23 Chwefror 2024. Sefydlwyd y Cylch Gorchwyl hwn ar sail canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn *Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg (Gorffennaf 2024)* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

## 2. Diben a Chyfrifoldebau

2.1. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn cefnogi Bwrdd a Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr) Medr trwy adolygu natur gynhwysfawr a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth, ac uniondeb y datganiadau ariannol a'r Cyfrifon Blynyddol. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn goruchwylio gwaith sicrwydd darparwyr allanol.

2.2. Cyfrifoldeb y Bwrdd fydd diffinio a chyfleu parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg, a sut y mae'n rheoli risgiau allweddol. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am reoli risg a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, bydd goruchwyliaeth ar hyn yn cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

2.3. Corff ymgynghorol yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn bennaf a'i unig bwerau gweithredol yw'r rhai a ddirprwywyd yn benodol iddo gan Fwrdd Medr.

2.4. Mae rhestr fanwl o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r gofynion tebygol o ran gwybodaeth wedi'i nodi yn **Atodiad A**.

## 3. Rheolau Sefydlog

3.1. Bydd Rheolau Sefydlog Pwyllgorau Medr yn berthnasol.

## 4. Aelodaeth a Phresenoldeb

4.1. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys tri o Aelodau Cyffredin Bwrdd Medr a hyd at dri aelod cyfetholedig nad ydynt yn aelodau o Fwrdd Medr.

4.2. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael ei gadeirio gan un o Aelodau Cyffredin Bwrdd Medr (ond nid Cadeirydd Bwrdd Medr). Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn un o Aelodau Cyffredin Bwrdd Medr.

4.3. Penodir aelodau’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan Gadeirydd Bwrdd Medr, sy’n cadw’r hawl i ychwanegu aelodau at y Pwyllgor neu dynnu aelodau oddi ar y Pwyllgor i ddiwallu anghenion y sefydliad.

4.4. Mae rhestr o aelodau cyfredol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi’i gynnwys yn **Atodiad B**.

4.5. Bydd y swyddogion canlynol yn Medr yn mynychu cyfarfodydd fel arfer ond ni fyddant yn aelodau o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:

- Y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu, neu ddirprwy
- Y Prif Swyddog Gweithredu
- Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Ysgrifennydd y Pwyllgor)

4.6. Gellir ei gwneud yn ofynnol i aelodau eraill o staff neu ymgynghorwyr allanol fod yn bresennol o bryd i’w gilydd hefyd i gynorthwyo’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gyflawni ei ddyletswyddau.

4.7. Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw’n hwy nag un flwyddyn, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd, i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol.

4.8. Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol/cynrychiolwyr y darparwr archwilio mewnol yn cael eu gwahodd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, er, gan ddibynnu ar union natur y drafodaeth, y gellir cytuno nad yw’n ofynnol iddynt fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy’n canolbwyntio dim ond ar faterion sicrwydd darparwyr.

4.9. Bydd y darparwyr archwilio allanol (Archwilio Cymru) yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg lle mae materion mewnol, corfforaethol (yn hytrach na materion darparwyr allanol) yn cael eu hystyried.

4.10. Gall swyddogion Llywodraeth Cymru fod yn bresennol yn unrhyw un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, os yw amgylchiadau’n mynnu hynny, gan gydnabod y bydd rhai materion i’w trafod lle nad yw’n briodol i staff Llywodraeth Cymru fod yn bresennol efallai.

## 5. Cworwm

5.1. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yw tri aelod, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor neu eu henwebai (sef Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel arfer).

5.2. Os nad oes cworwm yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor, bydd y Cadeirydd neu eu henwebai’n datgan nad oes cworwm yn bresennol a naill ai’n penderfynu y bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio neu’n bwrw ymlaen â’r cyfarfod ond gan ohirio unrhyw benderfyniadau tan y cyfarfod nesaf â chworwm. Bydd ystyriaeth i unrhyw fusnes nas trafodwyd yn cael ei gohirio tan ddyddiad ac amser a gaiff eu pennu gan y Cadeirydd neu tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 6. Cyfarfodydd

6.1. Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gwrdd yn fisol yn ystod y cyfnod sefydlu a'r cyfnod gweithredu cychwynnol er mwyn goruchwylio trefniadau gweithredol yn effeithiol.

6.2. Rhagwelir, ar ôl y cyfnod cychwynnol, y bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer i drafod materion mewnol, corfforaethol, gyda'r potensial i gwrdd ddwywaith yn ychwanegol i oruchwylio sicrwydd darparwyr.

6.3. Gall Bwrdd Medr neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnull cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y mae arnynt angen cyngor y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn eu cylch.

6.4. Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gwrdd a gweithredu y tu allan i'r Pwyllgor lle y bo'n briodol i gyflawni ei fusnes.

6.5. Gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gwrdd mewn sesiynau preifat heb i'r rhai nad ydynt yn aelodau fod yn bresennol, neu ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda, i hwyluso trafodaeth agored a didwyll am faterion penodol.

6.6. Gall Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gynnull cyfarfodydd ychwanegol a gall wneud hynny heb gyfeirio at yr ysgrifenyddiaeth na gweithrediaeth Medr, fel sy'n angenrheidiol yn eu tyb hwy.

6.7. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal cyfarfod ar wahân gyda chynrychiolwyr yr Archwilwyr Allanol a chyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol/cynrychiolwyr Archwilio Mewnol heb i unrhyw aelodau o staff Medr fod yn bresennol.

6.8. Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol/yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gallant ofyn i'r Pwyllgor gynnull cyfarfod os ydynt yn ystyried bod angen un.

6.9. Bydd hawliau mynediad cilyddol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Swyddog Cyfrifyddu, y rheolwr risg, y Prif Swyddog Cyllid, y Pennaeth Archwilio Mewnol, ac uwch gynrychiolydd yr Archwilwyr Allanol. Bydd trafodaethau o bryd i'w gilydd (o leiaf yn flynyddol) y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i helpu i sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu rheoli a bod cyd-ddealltwriaeth am risgiau a materion cyfredol.

6.10. Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, bydd y Cadeirydd yn cytuno gyda gweithrediaeth Medr ar flaenraglen waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, i sicrhau bod yr holl faterion y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdanynt yn cael eu hystyried yn briodol trwy gydol y flwyddyn ac ar yr adeg gywir.

## 7. Awdurdod

7.1. Mae'r Pwyllgor wedi'i awdurdodi i gael cyngor proffesiynol annibynnol, neu i gomisiynu ymchwiliadau arbennig, os yw o'r farn bod hyn yn angenrheidiol, yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog Pwyllgorau Medr.

## 8. Adroddiadau

8.1. Bydd cofnodion pob un o bwyllgorau'r Pwyllgor yn cael eu cylchredeg i gyfarfod nesaf y Pwyllgor, a hefyd i Fwrdd Medr yn dilyn eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor. Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, fel sy'n ofynnol yn ôl Dogfen Fframwaith Medr.

8.2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ac i'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyflawni ei ddyletswyddau, a hwnnw'n cael ei amseru fel ei fod yn rhoi cymorth i gwblhau'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu, gan grynhoi ei gasgliadau ynglŷn ag effeithiolrwydd y fframwaith rheoli sydd yn ei le o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn.

## 9. Adolygu

9.1. Bydd Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i gael eu cymeradwyo.

9.2. Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd, gyda hynny'n cael ei oleuo gan ganllawiau yn *Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EF*, a bydd yn adrodd wrth y Bwrdd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw. Gall y Cadeirydd ystyried comisiynu adolygiad allanol os tybir bod hynny'n angenrheidiol

**Atodiad A**
**Cyfrifoldebau – Materion mewnol**

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynghori Bwrdd a Swyddog Cyfrifyddu Medr ynghylch:

- Y prosesau strategol ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu
- Y polisïau cyfrifyddu, yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon, cyn eu cyflwyno i gael eu harchwilio, lefelau o wall a ganfuwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol
- Polisïau gwrth-dwyll, prosesau datgelu er budd y cyhoedd ("chwythu'r chwiban"), monitro trefniadau rhoddion a lletygarwch, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig yn y sefydliad
- Effeithiolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol
- Digonolrwydd trefniadau Medr ar gyfer archwilio mewnol, gan gynnwys ystyried canlyniadau unrhyw adolygiadau sicrhau ansawdd annibynnol, a chynigion ar gyfer tendro am wasanaethau archwilio mewnol, neu ar gyfer prynu gwasanaethau heblaw rhai archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio.
- Gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys cytundeb y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg â'r cynllun archwilio mewnol blynyddol
- Digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a adnabuwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr y rheolwyr at yr archwilwyr allanol
- Sicrwydd sy'n ymwneud â rheoli risg a gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio trefniadau diogelwch TG gan gynnwys:

- cwblhau'r Prawf Iechyd Diogelwch Adrannol i'w ddychwelyd at Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) Llywodraeth Cymru [yn unol â pharagraff 4.3 yn y Ddogfen Fframwaith]
- sicrhau bod y trefniant diogelwch ar gyfer safonau Cyber Essentials Plus ac IASME yn cael ei ardystio'n annibynnol [yn unol â pharagraff 4.3 yn y Ddogfen Fframwaith]
- Ymlyniad Medr wrth y Fframwaith Polisi Diogelwch ac wrth Safon Ddiogelwch y Llywodraeth, Safon GovS 007: Diogelwch [yn unol â pharagraff 4.3 yn y Ddogfen Fframwaith]

**Cyfrifoldebau – Materion allanol**

*Bydd rôl y Pwyllgor o ran goruchwylio cyfrifoldebau Medr mewn perthynas â sicrwydd darparwyr addysg drydyddol yn dod yn fwy eglur wrth i waith fynd rhagddo i ddatblygu prosesau sicrwydd a methodoleg adolygu risgiau darparwyr. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddio i gynghori'r Bwrdd ynghylch datblygu system reoleiddio newydd Medr a fydd yn weithredol o 2026, ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn aelod o'r Grŵp. Yn y cyfamser, bydd y trefniadau etifeddol ar gyfer sicrwydd ac asesu risg darparwyr o sefydliadau rhagflaenol Medr yn parhau, a bydd adroddiadau ar ganlyniadau'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.*

**Gofynion o ran Gwybodaeth**
Mae'r gofynion tebygol o ran gwybodaeth fel a ganlyn.

Ar ôl y cyfnod cychwynnol, rhagwelir y bydd y canlynol yn cael eu darparu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mhob cyfarfod:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i risgiau strategol y sefydliad a chopi o'r Gofrestr Risgiau strategol/corfforaethol
- adroddiad ar gynnydd (yn ysgrifenedig neu ar lafar) gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a hwnnw'n crynhoi:
    - gwaith a gyflawnwyd (a chymhariaeth â gwaith arfaethedig)
    - materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o waith archwilio mewnol
    - ymatebion y rheolwyr i argymhellion archwilio
    - newidiadau i'r cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno; ac
    - unrhyw faterion o ran adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni'r amcanion archwilio mewnol
- fel y bo'n briodol, adroddiad ar gynnydd (yn ysgrifenedig/ar lafar) gan y cynrychiolydd Archwilio Allanol yn crynhoi gwaith a wnaed a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg (gall hyn gynnwys, lle y bo'n berthnasol i'r sefydliad, agweddau ar waith ehangach a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, er enghraifft, adroddiadau Gwerth am Arian a chanfyddiadau arfer da)
- adroddiadau ar sicrwydd rheolwyr neu newidiadau i'r amgylchedd rheolaeth; ac
- adroddiadau ar reoli digwyddiadau mawr, "digwyddiadau trwch blewyn", achosion chwythu'r chwiban, a gwersi a ddysgwyd.

Fel y bo'n briodol, bydd y canlynol hefyd yn cael eu darparu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwilio mewnol / y siarter archwilio mewnol
- y strategaeth archwilio mewnol
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol
- adroddiadau sicrhau ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol
- adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft y sefydliad
- y Datganiad Llywodraethu drafft
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu
- llythyr y rheolwyr at yr archwilwyr allanol
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio
- diweddariad ar gydweithrediad rhwng archwilio mewnol ac allanol
- strategaeth Rheoli Risg y sefydliad
- Strategaeth Twyll ac Asesiad Risg Twyll a Llygredigaeth
- adroddiadau perthnasol gan unrhyw ddarparwyr sicrwydd eraill, er enghraifft adolygiadau Porth.

Mae'r rhestr uchod yn awgrymu'r gofynion *lleiaf* ar gyfer y mewnbynnau a ddylai gael eu darparu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

*[Nid yw'r gofynion o ran gwybodaeth am sicrwydd darparwyr allanol wedi cael eu pennu eto.]*

## Atodiad B

**Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:**

| ***Aelodau'r Bwrdd:*** | ***Tymor fel aelod o'r Bwrdd*** |
|---|---|
| Jayne Woods (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) | 4 Medi 2023 tan 3 Medi 2026 (tymor cyntaf) |
| Jeff Greenidge (Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) | 1 Medi 2024 tan 31 Awst 2027 (tymor cyntaf) |
| Rob Humphreys | 1 Awst 2024 tan 31 Gorffennaf 2027 (tymor cyntaf) |
| ***Aelodau annibynnol:*** | ***Tymor fel aelod o'r pwyllgor:*** |
| Andrew Lewis | 13 Mai 2024 tan 12 Mai 2027 (tymor cyntaf) |
| Martin Lewis | 13 Mai 2024 tan 12 Mai 2027 (tymor cyntaf) |
| *Lle gwag* | |

**Rheolaeth ar y ddogfen**

| Fersiwn | Dyddiad | Manylion |
|---|---|---|
| 1.0 | 23 Chwefror 2024 | Cylch Gorchwyl wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd |
| 2.0 | 20 Mai 2024 (Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) | Wedi egluro yn yr adran 'Cyfansoddiad' bod y Cylch Gorchwyl wedi cael ei sefydlu ar sail canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn *Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg* Trysorlys EF.<br><br>Cyfeiriadau at 'CADY' wedi'u disodli â chyfeiriadau at 'Medr'<br><br>Wedi ychwanegu 'Strategaeth Twyll ac Asesiad Risg Twyll a Llygredigaeth' at y rhestr o'r gofynion o ran gwybodaeth |
| 3.0 | Tachwedd 2024 | Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ystyried a chymeradwyo Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru yn dilyn adolygiad yn erbyn *Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg* Trysorlys EF.<br>Cymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2024. |